# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Uwchradd Caergybi

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Ceir ymdeimlad amlwg o gymuned yn Ysgol Uwchradd Caergybi, lle mae staff wedi ymrwymo i gefnogi lles disgyblion. Mae gweledigaeth y pennaeth am gynwysoldeb a disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion yn sail i'r ymrwymiad hwn. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth dosturiol a chaiff ei gefnogi gan uwch dîm arweinyddiaeth ymroddgar. Mae arweinwyr wedi gweithio'n effeithiol i sefydlogi'r ysgol yn dilyn heriau gweithredol a achoswyd gan RAAC (Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth). Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth wedi cael effaith ddigonol ar wella ansawdd yr addysgu a datblygiad medrau disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o wersi, ceir perthnasoedd cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion, sy'n cyfrannu at awyrgylch tawel a chynhyrchiol. Mae mwyafrif yr athrawon yn sefydlu arferion ystafell ddosbarth effeithiol ac yn cynnig gweithgareddau dysgu addas i ddisgyblion. Yn y gwersi hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus, ac yn cydweithio'n effeithiol. Mewn ychydig iawn o achosion, mae addysgu ysbrydoledig yn arwain at gynnydd eithriadol o dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ganlyniad i ddiffyg her, holi gwan, amcanion dysgu aneglur, a chynllunio gwersi yn wael.

Er gwaethaf gwelliannau diweddar mewn cynllunio, mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn rhy gyfyngedig. Mae gan fwy na hanner y disgyblion fedrau darllen gwan pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, ac nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol yn yr agwedd hon dros gyfnod. At ei gilydd, mae'r cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig yn bwrpasol, er bod lleiafrif o ddisgyblion yn cael trafferth â chywirdeb gramadegol a sillafu. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso cysyniadau mathemategol sylfaenol yn briodol, ond nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn mewn pynciau heblaw mathemateg.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd nodedig yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae disgyblion yn yr 'Uned Iaith' yn elwa ar drochi iaith, tra bod y ffrwd ddwyieithog a gyflwynwyd yn ddiweddar ym Mlwyddyn 7 yn cryfhau ymrwymiad yr ysgol i feithrin amgylchedd dwyieithog ymhellach. Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn gwneud cynnydd priodol, er nad oes ganddynt hyder yn aml wrth siarad.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys, gan ddarparu ystod eang o ddewisiadau pwnc yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion partner i ymestyn ei harlwy yn y chweched dosbarth, gan sicrhau bod disgyblion yn gallu elwa ar ystod amrywiol o gyrsiau. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yr ysgol yn strwythuredig a pherthnasol. Ceir amrywiaeth eang o weithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys clybiau, ymweliadau diwylliannol, a chyfleoedd arwain.

Mae presenoldeb yn destun pryder sylweddol. Er y bu ychydig o welliant yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae cyfraddau presenoldeb ymhell islaw lefelau cyn y pandemig ac yn is na'r rhai mewn ysgolion tebyg. Mae bwlch sylweddol yn bodoli rhwng presenoldeb pob un o'r disgyblion a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae arweinwyr wedi rhoi systemau olrhain ar waith i fonitro presenoldeb,

ond nid ydynt yn dadansoddi tueddiadau yn ddigon aml i nodi patrymau absenoldeb sy’n dod i’r amlwg.

Mae’r ysgol wedi ailsefydlu ei phrosesau sicrhau ansawdd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar gydymffurfio â pholisi ysgol yn hytrach nag effaith yr addysgu ar ddysgu. Er bod y llywodraethwyr yn gefnogol iawn, nid ydynt bob amser yn cynnig lefel addas o her i arweinwyr.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella presenoldeb a phrydlondeb

A2 Gwella ansawdd yr addysgu, yn enwedig lefel yr her a gynigir i ddisgyblion

A3 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafaredd, darllen a rhifedd disgyblion

A4 Gwella hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, gan sicrhau bod arweinwyr yn gwerthuso darpariaeth yn sgil ei heffaith ar gynnydd a lles disgyblion

A5 Sicrhau bod y corff llywodraethol yn cynnig her addas i arweinwyr

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â’r ysgol i fonitro cynnydd tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad arolygu.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/04/2025